# Ein cynllun taliadau

ar gyfer 2011-2012

EBRILL 2011

Dŵr Cymru
Welsh Water

www.dwrcymru.com

PAB0057

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Diffinio termau | 2 |
| 1 | Cyflwyniad | 4 |
| 2 | Cwynion | 4 |
| 3 | Treth ar Werth | 6 |
| 4 | Atebolrwydd am daliadau | 6 |
| 5 | Sut y byddwn yn codi tâl arnoch | 6 |
| 6 | Sut i dalu | 11 |
| 7 | Taliadau anfesuredig safonol | 14 |
| 8 | Taliadau mesuredig safonol | 14 |
| 9 | Cymorth Dŵr Cymru | 15 |
| 10 | Taliadau eraill ar gyfer mesuryddion | 15 |
| 11 | Amcangyfrif tâl mesuredig | 16 |
| 12 | Tariff diwydiannol | 17 |
| 13 | Taliadau amrywiol | 18 |
| 14 | Cyflenwadau arbennig | 20 |
| 15 | Hydrantau tân a thrwsio cyflenwadau | 21 |
| 16 | Cysylltiadau newydd | 22 |
| 17 | Taliadau seilwaith | 26 |
| 18 | Taliadau elifion masnach | 28 |


Dangosir pob tâl a gymeradwyir gan Ofwat mewn testun **Glas**. Er hwylustod, rydym hefyd wedi cynnwys taliadau amrywiol nad ydynt yn destun cymeradwyaeth gan Ofwat, a dangosir y rhain mewn testun **Gwyrdd**.

## Diffinio termau

**Defnyddir y diffiniadau isod yn y Cynllun hwn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:**

**“Adnewyddu”** - unrhyw waith a wneir yn yr eiddo o baentio ac addurno i waith adeiladu.

**“Ailddatblygiad”** - safle lle newidir y cysylltiadau neu’r defnydd ohonynt. Mae ailddatblygiad yn cynnwys, er enghraifft, adeiladu tai newydd yn lle hen dai, troi tŷ mawr yn fflatiau, cyfuno dau eiddo neu fwy yn un, addasu ffatri i weithredu fel swyddfeydd, ymestyn ffatri neu swyddfeydd, a newid cyflenwad dŵr adeilad i gyflenwad preswyl.

**“Carthion domestig”** - cynnwys toiledau, dŵr a ddefnyddir ar gyfer coginio neu olchi, a dŵr wyneb ond nid dŵr a ddefnyddir ar gyfer busnes golchi dillad neu fusnes sy’n paratoi bwyd neu ddiod i’w fwyta/yfed oddi ar y safle (gweler Adran 117 o’r Ddeddf).

**“Cwmni”** - Dŵr Cymru Cyfyngedig.

**“Cwmni Bilio”** - cwmni heblaw am Dŵr Cymru Cyfyngedig sy’n cyflenwi dŵr i’r safle ac sy’n gyfrifol am gasglu’r taliadau carthffosiaeth mewn perthynas â’r safle hwnnw ar ran Dŵr Cymru Cyfyngedig.

**“Cwsmer neu ddarpar gwsmer”** - unigolyn sy’n cael gwasanaeth gan y Cwmni neu sy’n atebol i dalu taliadau yn unol â chynllun taliadau’r Cwmni, neu unigolyn a allai ddod yn unigolyn o’r fath o wneud cais at y diben hwnnw i’r Cwmni.

**“Cysylltiad”** - cysylltiad a reoleiddir gan y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall, sy’n cyflenwi gwasanaethau’r Cwmni i’r cwsmer.

**“Cysylltiad Cangen/Maniffold”** - ble gellir cysylltu mwy nag un eiddo â’r brif bibell ddŵr drwy un cysylltiad.

**“Deddf”** - Deddf Diwydiant Dŵr 1991 ac unrhyw ddiwygiadau iddi.

**“Deiliad”** - yn ogystal ag unrhyw unigolyn sy’n byw ar safle, unrhyw unigolyn sy’n cynnal a chadw safle a gaiff ei ddefnyddio neu y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel annedd neu swyddfa neu safle masnachol sy’n cynnwys dodrefn ac sy’n barod i’w osod.

- cynnal a chadw unrhyw safle newydd neu safle wedi’i addasu sy’n barod i’w roi ar werth neu ar osod
- cynnal a chadw unrhyw safle arall mewn cyflwr y gellir ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd
- cynnal a chadw safle amlfeddiannaeth gyda chyfleusterau a rennir neu hostel gwyliau neu hostel i fyfyrwyr neu lety arall ar gyfer daliadaeth neu rentu am gyfnod byr.

**“Dibenion dibreswyl”** - cyflenwad at unrhyw ddefnydd ac eithrio dibenion domestig; er enghraifft cyflenwadau at ddibenion gweithgynhyrchu, i safleoedd adeiladu ac i gafnau caeau.

**“Dibenion preswyl”** - yn gyffredinol cyflenwad at ddibenion yfed, golchi, coginio, gwres canolog ac iechyd, fel y’i diffinnir yn Adran 218 o’r Ddeddf.

**“Dibreswyl”** - safle/cwsmer heblaw am safle/cwsmer preswyl - gweler uchod am ddiffiniad o ‘preswyl’.

**“Dŵr anyfadwy”** - dŵr na fwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a nodir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991.

**"Dŵr yfadwy"** - dŵr y bwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a nodir mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991.

**"Elifion masnach"** - unrhyw hylif, sy'n cynnwys mater mewn daliant ai peidio, a gaiff ei gynhyrchu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan fasnach neu ddiwydiant ar safle masnach ond nad yw'n cynnwys carthion domestig, fel y'i diffinnir yn Adran 141 o'r Ddeddf.

**"Gwerth Ardrethol"** (RV) - gwerth a ddangosir ar y rhestr brisio a gedwir gan awdurdod ardrethu o dan Ran V o Ddeddf y Dreth Gyffredinol 1967 ar 31ain Mawrth 1990, ac sy'n cynnwys gwerthoedd ardrethol a gynigir ar y dyddiad hwnnw ac sy'n weithredol ar 31ain Mawrth 1990 neu cyn hynny.

**"Hysbysiad o Daliadau Mesuredig"** - cais gan y Cwsmer i'r Cwmni bennu taliadau o ran y cyflenwad yn seiliedig ar faint o ddŵr a gyflenwir. (Fel y'i disgrifir yn Adran 6 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1999). Dim ond ar ffurf ysgrifenedig y bydd y Cwmni yn derbyn cais.

**Mesuryddion** - Mae gan **fesurydd y gellir ei sgriwio i mewn** byrth consentrig er mwyn ei gysylltu â phibellau (cysylltiad sengl) a dyma'r math a osodir yn gyffredinol ym mlwch ffin safonol y Cwmni. Mae gan **fesurydd "ar y llinell"** gysylltiad ar y ddau ben.

**"Pibell wasanaeth"** - y bibell (neu ran o'r bibell) sy'n cyflenwi dŵr o brif bibell y Cwmni i unrhyw safle, fel y'i diffinnir yn adran 219 o'r Ddeddf.

**"Preswyl"** - unrhyw adeilad neu ran o adeilad y mae pobl yn byw ynddo fel tŷ annedd, p'un a yw'n dŷ annedd preifat neu beidio, neu os yw'n wag, sy'n debygol o gael ei ddefnyddio felly. (Fel y'i disgrifir yn Adran 219 o'r Ddeddf). Yn arbennig, mae tŷ yn cynnwys fflat ond nid carafán na chartref symudol sydd wedi'i leoli dros dro.

**"Safle"** - adeilad parhaol, ei dir ac atodion neu unrhyw gyfleuster lle y darperir cyflenwad. Mae adeilad yn cynnwys tŷ, rhan o adeilad y gellir ei meddiannu ar wahân.

**"Safle unigol"** - mae'n cyfeirio at eiddo o fewn un lleoliad

"Pibell gyflenwi" - unrhyw ran o bibell wasanaeth na allai fod yn ofynnol neu na fu'n ofynnol i'r Cwmni ei gosod o dan Adrannau 45 a 46 o'r Ddeddf.

**"Tenantiaeth tymor penodol"** - unrhyw denantiaeth heblaw am denantiaeth gyfnodol.

## 1. Cyflwyniad

**Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys "Cynllun Taliadau" y Cwmni a wnaed o dan ddarpariaethau Deddf Diwydiant Dŵr 1991. Mae'r taliadau a nodir yn y llyfryn hwn, lle y bo'n gymwys, wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr a byddant yn gymwys ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012. Yn unol â dyletswydd y Cwmni o dan y Ddeddf a'i Drwydded (yr Offeryn Penodi) fel darparwr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ei ardal, mae'r Cwmni wedi cymryd camau i sicrhau nad yw'r taliadau yn gwahaniaethu yn erbyn, neu'n ffafrio'n ormodol, unrhyw ddosbarth o bobl.**

Mae'r Cwmni yn darparu gwasanaethau dŵr, carthffosiaeth, ac elifion masnach i gartrefi, swyddfeydd, busnesau a ffatrïoedd yn yr ardal a nodir ar y map isod.

Pan fydd y Cwmni yn darparu gwasanaethau dŵr yn unig a chwmni arall yn darparu'r gwasanaethau carthffosiaeth, Dŵr Cymru yw'r cwmni bilio. Yn yr ardaloedd hynny lle mai dim ond y gwasanaeth carthffosiaeth a ddarperir gan Dŵr Cymru, y cwmni sy'n darparu'r gwasanaeth dŵr yw'r cwmni bilio.

Gall cwsmeriaid sy'n bwriadu symud i eiddo newydd gysylltu â'r Cwmni drwy ffonio **0800 052 0145** neu anfon e-bost i **water. enquiries@dwrcymru.com** er mwyn cadarnhau ar ba sail y byddent yn talu eu taliadau ar gyfer yr eiddo.

Mae'r Cwmni yn cynhyrchu nifer o gyhoeddiadau gwybodaeth cwsmeriaid am y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Gellir cael manylion am y rhain a chopïau ohonynt am ddim drwy ffonio **0800 052 0138** neu drwy fynd i'r 'llyfrgell' ar wefan y Cwmni, **www.dwrcymru.com**.




## 2. Cwynion

Mae gan y Cwmni weithdrefn gwyno ffurfiol i ymdrin â chwynion am unrhyw agwedd ar y gwasanaethau a ddarperir. Gellir cael rhagor o fanylion yn y cyhoeddiad "Delio â'ch Cwynion". Y ffordd orau a chyflymaf o ddelio â chŵyn yw dros y ffôn. Cynghorir cwsmeriaid i ffonio un o'r rhifau ffôn canlynol:

- Ymholiadau ynglŷn â Bilio a Chyfrifon
  **0800 052 0145**
- Gwasanaethau Dŵr
  **0800 052 0130**
- Gwasanaethau Carthffosiaeth
  **0800 085 3968**

Os na allwn ddatrys cwyn dros y ffôn, gall cwsmeriaid ysgrifennu atom yn un o'r cyfeiriadau canlynol:

Ar gyfer **Gwasanaethau Dŵr** anfonwch e-bost i **water.operations.enquiries@dwrcymru.com** neu cysylltwch â'r depo rhanbarthol perthnasol yn un o'r cyfeiriadau isod:

| Gwasanaethau Cwsmeriaid | Cyfeiriad |
|---|---|
| **Caernarfon** | Swyddfa Dinas, Llanwnda, Caernarfon LL54 5UB |
| **Pentre'r Eglwys** | Depo Pentre'r Eglwys, Teras Dyffryn Bach, Pentre'r Eglwys CF38 1BN |
| **Henffordd** | Broomy Hill Works, Breinton Road, Hereford, HR4 0JS |
| **Pont-y-pŵl** | Gwaith Trin Dŵr Llandegfedd, Trem-y-Ffynnon, Heol Sluvad, New Inn, Pont-y-pŵl NP4 0TA |
| **Clydach** | Depo Clydach, Ystad Ddiwydiannol Players, Clydach, Abertawe SA6 5BQ |
| **Pencader** | Llanfihangel ar Arth, Pencader, Sir Gaerfyrddin SA39 9HT |

**Ar gyfer gwasanaethau carthffosiaeth cysylltwch â:**
Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid
Carthffosiaeth
Dŵr Cymru
Blwch SP 3118
Caerdydd CF30 0BY
E-bost: sewerage@dwrcymru.com
Ffacs: 02920 361480

**Ar gyfer Bilio a Chyfrifon cysylltwch â:**
Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid
Dŵr Cymru
Blwch SP 690, Caerdydd CF3 5WL
E-bost: water.enquiries@dwrcymru.com
Ffacs: 02920 740478

**Ar gyfer cysylltiadau dŵr/carthffosydd, seilwaith newydd a materion cynllunio neu ddatblygu, cysylltwch â:**
Gwasanaethau Datblygwyr
Dŵr Cymru
Linea, Ffordd Fortran,
Caerdydd, CF30 0EH
Ffôn: 0800 917 2652
E-bost: developer.services@ dwrcymru.com

**Os yw cwsmeriaid yn anfodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â chŵyn, gallant ofyn i Gyfarwyddwr adolygu'r gŵyn yn y cyfeiriad canlynol:**
Pennaeth Cysylltiadau Cwsmeriaid
Dŵr Cymru, Blwch SP 8
Nelson CF46 6YG
Ffacs: 01443 452618
Minicom: 0800 052 4125
E-bost: welsh.water@dwrcymru.com

**Os bydd cwsmer yn parhau i fod yn anfodlon, yna gellir cyfeirio'r mater at:**
Cyngor Defnyddwyr Dŵr, Cymru
Ystafell 140 Tŷ Caradog
1-6 St Andrews Place, Caerdydd,
CF10 3BE
Ffôn: 08457 078267
(Codir tâl ar y gyfradd leol am alwadau)
Ffacs: 02920 239847
E-bost: wales@ccwater.org.uk
Minicom: 0121 345 1044

Dim ond cwynion sydd wedi'u cyfeirio at y Cwmni y bydd Cyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru yn ymchwilio iddynt fel arfer. Wrth ysgrifennu atynt, byddai'n ddefnyddiol amgáu copi o'r ateb a gawsoch gan Gyfarwyddwr. Os bydd y mater yn parhau heb ei ddatrys, gallwch ofyn iddynt gyfeirio eich cwyn at bencadlys y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn Birmingham.

Gellir cyfeirio rhai cwynion at Ofwat. Nodir y rhain yn yr adrannau perthnasol o'r llyfryn hwn.

The Water Services Regulation Authority (OFWAT)
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham
B5 4UA
Ffôn: 0121 644 7500
Ffacs: 0121 644 7699
E-bost: enquiries@ofwat.gsi.gov.uk

**Dylech amgáu copïau o'r ohebiaeth a gawsoch gyda ni.**

## 3. Treth ar Werth

Caiff TAW ei hychwanegu at daliadau cyflenwi dŵr (gan gynnwys dŵr ar gyfer adeiladu) a godir ar gwsmeriaid diwydiannol a ddiffinnir gan is-adrannau 1-5 o Restr Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 1980 (SIC). Mae taliadau cyflenwi dŵr i bob cwsmer arall ar gyfradd sero at ddibenion TAW.

## 4. Atebolrwydd am Daliadau

Mae taliadau am wasanaethau dŵr yn daladwy ar gyfer pob safle sy'n cael cyflenwad dŵr, p'un a gaiff cyflenwadau o'r fath eu defnyddio ai peidio. Mae taliadau am gyflenwadau dŵr yn daladwy gan ddeiliad eiddo ac eithrio pan fydd cytundeb penodol rhwng trydydd parti a'r Cwmni i dalu'r taliadau. Pan fydd mwy nag un deiliad, yna gall y Cwmni ofyn i unrhyw ddeiliad dalu'r holl fil os na fydd y deiliaid eraill yn gwneud hynny. Pan fydd un mesurydd yn cyflenwi dau eiddo neu fwy, bydd y taliadau'n daladwy gan yr unigolyn a nodwyd gan y Cwmni fel yr unigolyn sy'n gyfrifol am y mesurydd. Cyfrifoldeb y gwahanol ddeiliaid yw rhannu'r bil cyfan a chasglu'r arian. Yn gyffredinol, rydym yn dibynnu ar y deiliad i'n hysbysu am unrhyw newid o ran y bobl sy'n byw yno.

Pan fydd Adran 45 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr wedi'i gweithredu bydd dyletswydd ar landlordiaid i roi manylion eu tenantiaid i'r Cwmni. Oni wneir hynny y landlord fydd yn atebol am daliadau. Disgwylir i hyn ddigwydd yn ystod 2011-12.

Bydd cwsmer sy'n cael gwasanaeth dŵr a charthffosiaeth yn parhau i fod yn atebol am y taliadau yn llawn tra bod y safle yn cynnwys dodrefn a/neu ffitiadau, yn cael ei adnewyddu neu'n cael ei ddefnyddio fel arall. Bydd taliadau yn aros yr un fath oni wneir cais i droi'r cyflenwad dŵr i ffwrdd. Fodd bynnag, gall taliadau draenio dŵr wyneb barhau i fod yn gymwys.

Mae'r Cwmni yn cadw'r hawl i ofyn i gwsmeriaid dibreswyl roi blaendal sicrwydd mewn arian parod neu fath arall o gyllid wedi'i sicrhau. Bydd y blaendal sicrwydd yn hafal i daliadau dros un cylch bilio ynghyd â thri mis. Fel arfer bydd taliadau cyfartalog yn seiliedig ar ddefnydd gwirioneddol yn ystod y flwyddyn flaenorol neu yn achos cwsmeriaid newydd, yn seiliedig ar amcangyfrif rhesymol o'r taliadau sydd i'w talu yn y flwyddyn gyfredol. Efallai y bydd angen blaendal sicrwydd os bydd y Cwmni o'r farn ei bod yn rhesymol briodol o ystyried hanes talu'r cwsmer, ei statws credyd (os oes ganddo un) a'i adnoddau ariannol ac unrhyw ffactorau eraill sy'n berthnasol i allu neu barodrwydd y cwsmer i dalu am y gwasanaethau a ddarperir. Gall y gofyniad i roi sicrwydd neu'r swm a ddelir gael ei adolygu gan y Cwmni neu ar gais y cwsmer i adlewyrchu newidiadau o ran faint o wasanaethau a ddarperir neu'r newidiadau i'r statws credyd.

## 5. Sut y byddwn yn codi tâl arnoch MESUREDIG

Mae eich bil mesuredig yn seiliedig ar faint o ddŵr a ddefnyddir, ac mae mesurydd wedi'i osod ym mhob eiddo a adeiladwyd er 1af Ebrill 2000. Os byddwch yn symud i eiddo sy'n fesuredig, ni allwch newid i dalu ar sail anfesuredig.

Mae'r Cwmni yn cadw'r hawl i osod mesurydd yn yr eiddo, yn ddarostyngedig i amodau penodol, lle ceir tystiolaeth bod llawer mwy o ddŵr yn cael ei ddefnyddio. Mae'n rhaid i ddŵr eiddo sydd â phwll nofio a gaiff ei ail-lenwi'n awtomatig neu sy'n defnyddio dyfeisiau dyfrio awtomatig (h.y. nid pibellau dŵr a ddelir â llaw) gael ei fesur.

Caiff biliau preswyl mesuredig eu hanfon bob chwe mis ac maent yn seiliedig ar ddefnydd

go iawn a nodir ar y mesurydd neu amcangyfrif os nad yw'r mesurydd wedi'i ddarllen. Mae'r Cwmni yn ceisio darllen pob mesurydd o leiaf unwaith bob chwe mis. Fodd bynnag os na chaiff y mesurydd ei ddarllen, gall y Cwmni ofyn i'r cwsmer ddarparu darlleniad lle y bo'n ddiogel i wneud hynny, neu drefnu apwyntiad cyfleus gyda'r cwsmer i gael darlleniad, neu gall amcangyfrif y defnydd.

Yn gyffredinol, po fwyaf y dŵr a ddefnyddiwch y mwyaf fydd y bil. Fel arfer codir tâl am garthffosiaeth ar y dybiaeth bod 95% o'r dŵr a ddefnyddir yn dychwelyd i'r garthffos. Pan fydd bil mesuredig yn cynnwys cyfnod cyn ac ar ôl 1af Ebrill 2011, byddwn yn defnyddio cyfraddau 2010/11 i godi tâl am y dŵr a ddefnyddiwyd cyn 1af Ebrill 2011 a chyfraddau 2011/12 i godi tâl am y dŵr a ddefnyddir ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae gennym yr hawl i osod mesurydd ar bob safle dibreswyl, gan gynnwys unrhyw gyflenwadau preifat sy'n gollwng i'n carthffos.

### Mae'r tâl mesuredig yn cynnwys tair elfen:

- **Cyflenwad dŵr** – yn seiliedig ar y defnydd o ddŵr a gofnodir gan y mesurydd mewn metrau ciwbig. Gellir codi tâl am yr holl ddŵr a ddefnyddir ac eithrio dŵr a ddefnyddir at ddibenion diffodd tân. Gellir codi tâl am ddŵr a ddefnyddir ar gyfer profion ac ymarferion tân oni roddir 7 diwrnod o rybudd yn ysgrifenedig i'r Cwmni yn y cyfeiriad ar gyfer Bilio a Chyfrifon a ddangosir yn Adran 1.
- **Carthffosiaeth** – hefyd yn seiliedig ar y defnydd o ddŵr a gofnodir gan y mesurydd. Mae'r tâl carthffosiaeth yn cynnwys tâl am ddŵr wyneb a draenio priffyrdd. Mae hyn yn cynnwys y gost o ddraenio, trin a gwaredu dŵr glaw. Os nad yw eich dŵr glaw yn draenio i'r garthffos gyhoeddus, yna ni fydd yr elfen hon yn daladwy gennych. Gellir gofyn am ffurflen Ad-daliad Draenio Dŵr Wyneb drwy ffonio **0800 052 0149**. Y dyddiad gweithredol ar gyfer unrhyw hawliad fydd 1af Ebrill yn y flwyddyn filio y bydd y Cwmni yn derbyn y cais. Yn achos y mwyafrif o gwsmeriaid, rydym yn tybio bod bron y cyfan o'r dŵr yn dychwelyd i'r garthffos heblaw am, er enghraifft, dŵr yfed, a dŵr a ddefnyddir i goginio neu ddyfrio'r ardd. Os credwch fod llai na 95% o'ch dŵr yn dychwelyd i'r garthffos a'ch bod yn gallu profi hyn drwy ei fesur, gallwch hawlio gostyngiad ar eich taliadau carthffosiaeth. Gellir cael ffurflenni cais ar gyfer lwfans am beidio â gollwng dŵr i mewn i garthffos drwy ffonio **0800 052 0145**. Y dyddiad gweithredol ar gyfer unrhyw hawliad fydd 1af Ebrill yn y flwyddyn filio y caiff y cais ei dderbyn.
- **Tâl Sefydlog** – caiff ei gyfrifo'n ddyddiol ac mae'n seiliedig ar faint y mesurydd. Mae'r tâl sefydlog yn cynnwys y gost o ddarllen a chynnal a chadw'r mesurydd a gosod un newydd pan fydd angen.

### Ailddatblygu eiddo

Mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i safle sy'n bodoli eisoes sy'n arwain at greu safle ychwanegol neu gyfuno safleoedd sy'n bodoli eisoes gael eu gwneud yn y fath fodd fel bod pob rhan o'r safle wedi'i chysylltu â phrif bibell dŵr y Cwmni ar wahân ac y gellir eu mesur ar wahân. Mae'n rhaid i bob cwsmer dalu costau newidiadau priodol i'r pibellau. Os na wneir hynny, gall y Cwmni wneud y gwaith angenrheidiol ac adennill y costau. Os nad yw mesuryddion yn ymarferol, neu hyd nes bod mesurydd yn cael ei osod, gellir asesu gwerth codi tâl neu daliad, yn seiliedig ar

werth ardrethadwy tybiannol (Tâl Gwasanaeth Unffurf) neu Amcangyfrif Tâl Mesuredig ar yr amod bod y cwsmer yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol.

Yn achos cysylltiad anghyfreithlon, bydd y Cwmni yn cymryd pob cam cyfreithiol priodol a cheisio pob rhwymedi sifil priodol.

## Dewis Mesurydd

Gall cwsmeriaid preswyl, (ac eithrio tenantiaid gyda thenantiaethau tymor penodol o lai na chwe mis, y gall fod angen caniatâd arnynt yn unol â thelerau'r cytundeb tenantiaeth) ofyn i fesurydd gael ei osod i'w cyflenwad. Gellir gofyn i fesurydd gael ei osod drwy ffonio'r Cwmni ar 0800 052 0140. Ar ôl cael hysbysiad o daliadau mesuredig wedi'i lofnodi, bydd y Cwmni yn gosod mesurydd am ddim, ar yr amod ei fod yn ymarferol bosibl i'w osod ac na fydd gwneud hynny yn arwain at gostau afresymol. Byddai costau afresymol yn cynnwys cost rhannu pibell gyflenwi'r cwsmer, cost addasiadau sylweddol i waith plymio sydd eisoes yn bodoli er mwyn ei gwneud yn bosibl i fesurydd gael ei osod neu gost mesuryddion ychwanegol os yw'r cwsmer yn cael mwy nag un cyflenwad. Bydd y Cwmni yn gosod y mesurydd o fewn tri mis i gael ffurflen gais wedi'i llofnodi. Os bydd y Cwmni yn methu â chyrraedd y safon hon bydd y cwsmer yn cael taliad o £20 am bob mis ychwanegol y tu hwnt i'r dyddiad targed ar gyfer gosod y mesurydd. Ni fydd y taliad yn gymwys pan fydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Cwmni yn atal y mesurydd rhag cael ei osod. Fel arfer, bydd y Cwmni yn gosod mesurydd y tu allan i'r safle mewn blwch ffin. Gall y cwsmer ofyn i'r mesurydd gael ei osod mewn lleoliad arall (ar yr amod bod y Cwmni yn ystyried ei fod yn ymarferol gwneud hynny). Fodd bynnag byddai hynny'n golygu tâl ychwanegol gan y cwsmer. Rhoddir manylion am y tâl ar gais. Efallai na fydd y tâl yn gymwys i gwsmeriaid cymwys ar ein Cofrestr Gwasanaethau Ychwanegol. Codir tâl ar y cwsmer ar sail anfesuredig hyd nes y caiff y mesurydd ei osod. Mae'r mesurydd yn aros yn eiddo i'r Cwmni.

Gall cwsmeriaid dibreswyl ofyn i fesurydd gael ei osod i'w cyflenwad hefyd gan ddilyn y broses a ddisgrifir uchod.

Caiff lwfans untro ei ddyfarnu i gwsmeriaid preswyl yn erbyn eu taliadau dŵr o ran y dŵr mesuredig a gollwyd pan fydd gollyngiad ar ran y cwsmer o'r bibell wasanaeth wedi'i drwsio.

Ar gyfer safleoedd defnydd cymysg h.y. safle dibreswyl wedi'i gyfuno â safle preswyl, er enghraifft, cyflenwad fferm gan gynnwys y ffermdy neu dafarndy gyda fflat uwchben, rhoddir lwfans dŵr ar gyfer elfen breswyl y bil yn unig. Rydym yn cyfrifo'r lwfans ar gyfer yr elfen breswyl ar sail y ffigurau defnydd blynyddol a ddefnyddir gennym i gyfrifo ein hamcangyfrif tâl mesuredig. Ni roddir lwfansau dŵr i gwsmeriaid dibreswyl.

Gall cwsmeriaid preswyl a chwsmeriaid dibreswyl fod yn gymwys i gael lwfans Carthffosiaeth ar gyfer y gollyngiad cyntaf a gollyngiadau dilynol lle nad yw'r dŵr a gollwyd o ganlyniad i ollyngiad wedi dychwelyd i'r garthffos.

**Mae'n rhaid gwneud cais am lwfans o fewn chwe mis i drwsio'r gollyngiad. Ni chaiff lwfans ei roi os mai esgeulustod y cwsmer neu unigolyn yn gweithredu ar ran y cwsmer sydd wedi achosi'r gollyngiad.**

Gellir cael rhagor o fanylion yng nghyhoeddiadau'r Cwmni 'Cod Ymarfer Gollyngiadau' ac 'Eich Cyflenwad Mesuredig'. Gellir cael copïau o'r cyhoeddiadau hyn drwy ffonio 0800 052 0138, neu drwy fynd i'r llyfrgell ar ein gwefan yn www.dwrcymru.com.

Os bydd unrhyw gwestiwn neu anghydfod am unrhyw agwedd ar osod y mesurydd, dylai cwsmeriaid gysylltu â ni yn y lle cyntaf ar **0800 052 0145**, neu fel arall gallant gyfeirio'r mater at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn y cyfeiriad ar dudalen 5.

## Amcangyfrif Tâl Mesuredig - Preswyl

Gall cwsmer preswyl ddewis amcangyfrif tâl mesuredig pan nad yw'n rhesymol ymarferol gosod mesurydd, neu os yw'n afresymol o ddrud i'w osod. Mae'r amcangyfrif tâl mesuredig yn seiliedig ar fand y tâl dŵr, nifer y deiliaid a'r dybiaeth bod 95% o'r dŵr yn cael ei ollwng i'r garthffos. Pan fydd y deiliad yn newid, bydd y safle'n dychwelyd i ddull codi tâl ar sail anfesuredig. Bydd hawl gan y deiliad newydd wneud cais am opsiwn mesurydd a chaiff dichonoldeb gosod mesurydd yn y safle ei ailasesu.

## Dychwelyd i Daliadau Anfesuredig

Gall unrhyw gwsmer preswyl sy'n newid i opsiwn mesurydd neu amcangyfrif tâl mesuredig, ar unrhyw adeg hyd at fis ar ôl i'r Cwmni anfon biliau am 12 mis o'r dyddiad y gosodwyd y mesurydd neu y cymhwyswyd yr amcangyfrif tâl mesuredig, wneud cais ysgrifenedig i ddychwelyd i'r tariff anfesuredig blaenorol, ar yr amod nad yw'r cwsmer wedi cael mesurydd wedi'i osod yn flaenorol neu wedi talu biliau'n seiliedig ar yr amcangyfrif tâl mesuredig ac na fyddai'r cyflenwad yn destun mesur gorfodol.

## Amcangyfrif Tâl Mesuredig - Dibreswyl

Pan nad yw'n rhesymol ymarferol gosod mesurydd, neu ei fod yn afresymol o ddrud, gall y Cwmni godi tâl ar sail amcangyfrif. Mae'r amcangyfrif tâl mesuredig yn seiliedig ar fand y tâl dŵr a bennir gan y math o fusnes a'r dybiaeth bod 95% o'r dŵr yn cael ei ollwng i'r garthffos. Pan fydd y deiliad yn newid, bydd y safle'n parhau ar amcangyfrif tâl mesuredig ond mae'n bosibl y caiff y band ei ailasesu yn seiliedig ar natur busnes y deiliad newydd.

## Tariff Diwydiannol

Pan fydd cwsmeriaid yn defnyddio llawer o ddŵr ar safle unigol a/neu os bydd 100,000 metr ciwbig (100 ML) neu fwy o garthion yn cael eu gollwng o un safle mewn blwyddyn, gallant ddewis un o'r bandiau tariff diwydiannol. Mae'n rhaid i'r cwsmer hysbysu'r Cwmni yn ysgrifenedig ymlaen llaw a chytuno i dalu bob mis drwy ddebyd uniongyrchol. Bydd y Cwmni yn cytuno ar delerau ac amodau gyda'r cwsmer ym mhob achos. Gall methu â chydymffurfio â'r telerau ac amodau y cytunwyd arnynt arwain at dynnu'r tariff yn ôl, heb rybudd. Codir tâl ar y cwsmer yn seiliedig ar y band a ddewiswyd am o leiaf 12 mis. Mae pob band yn berthnasol i'r holl ddŵr a gaiff ei ddefnyddio a'i ollwng rhwng 1af Ebrill 2011 a 31ain Mawrth 2012 ac yn cynnwys:

- Tâl sefydlog am y flwyddyn (sy'n cynnwys tâl sefydlog blynyddol ar gyfer y mesurydd cyntaf)
- Tâl sefydlog ychwanegol ar gyfer pob mesurydd ychwanegol yn seiliedig ar faint y mesurydd
- Tâl cyfeintiol

Fel arfer codir y tâl o ddiwrnod cyntaf y mis pan geir y cais a bydd yn parhau yn y dyfodol oni bai bod y cwsmer yn gofyn, yn ysgrifenedig, ymlaen llaw i newid band.

## Tariff Elifion Masnach

Caniateir i Fasnachwyr Tariff Elifion Masnach ollwng elifion masnach yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i garthffos gyhoeddus ar yr amod bod y Cwmni wedi rhoi caniatâd ar gyfer elifion masnach. Bydd cytundeb o'r

fath yn nodi'r amodau o ran maint ac ansawdd a chaiff yr elifion eu samplu yn rheolaidd i sicrhau y cydymffurfir â'r amodau. Cyfrifir taliadau elifion masnach yn unol â chyfaint a chryfder yr elifion a ollyngir yn y sampl ac maent yn daladwy ar ben y tâl carthffosiaeth domestig a gaiff ei gyfrifo, yn bennaf, gan ystyried y cyfleusterau sydd ar gael, nifer y gweithwyr a nifer y diwrnodau a weithiwyd. Mae'r taliadau'n daladwy chwe mis ymlaen llaw ar sail amcangyfrif a chânt eu newid pan fydd maint y gollyngiad yn hysbys. Mae'r taliadau'n daladwy o'r dyddiad y rhoddir caniatâd ar gyfer elifion masnach. Y cyfnodau bilio yw mis Ebrill i fis Medi a mis Hydref i fis Mawrth. Mae'n rhaid gwneud taliadau o fewn 14 diwrnod drwy siec, BACS neu ddebyd uniongyrchol. Ceir dau fath o dâl elifion:

- Y tâl unedol safonol
- Y tâl diwydiannol ar gyfer gollwng mwy na 100Ml y flwyddyn

Gellir gollwng elifion i waith trin carthion neu ollyngfa i'r môr.

## ANFESUREDIG

Os adeiladwyd eiddo cyn 1af Ebrill 2000 ac nad yw'r deiliad wedi gofyn i fesurydd gael ei osod, byddant yn talu taliadau anfesuredig. Ni fydd y tâl yn adlewyrchu faint o ddŵr a ddefnyddir. Mae dwy ffordd o gyfrifo taliadau anfesuredig:

**Tâl gwerth ardrethol** – tâl sefydlog, yn ogystal â thâl fesul punt o'r gwerth ardrethol am ddŵr a charthffosiaeth
NEU
**Tâl Gwasanaeth Unffurf**
(ar gyfer eiddo a adeiladwyd rhwng 1af Ebrill 1990 a 31ain Mawrth 2000) - mae taliadau'n seiliedig ar werth ardrethol cyfartalog eiddo yng Nghymru.

Mae'r tâl anfesuredig yn cynnwys tair elfen:

**Cyflenwad dŵr** - mae hyn yn cynnwys costau cyflenwi dŵr i'r eiddo.

**Carthffosiaeth** – mae hyn yn cynnwys y gost o drin a gwaredu'r dŵr a ddefnyddir gan gynnwys tâl ar gyfer dŵr wyneb a draenio'r briffordd. Mae hyn yn cynnwys y gost o ddraenio, trin a gwaredu dŵr glaw. Os nad yw eich dŵr glaw yn draenio i'r garthffos gyhoeddus, yna ni fydd yr elfen hon yn daladwy gennych. Gellir gofyn am ffurflen Ad-daliad Draenio Dŵr Wyneb drwy ffonio 0800 052 0149. Y dyddiad gweithredol ar gyfer unrhyw hawliad fydd 1af Ebrill yn y flwyddyn filio y bydd y Cwmni yn derbyn y cais.

Tâl sefydlog – a gaiff ei gyfrifo bob dydd

## TARIFFAU ERAILL

### Dŵr Uniongyrchol

Cymhwysir gostyngiad blynyddol at gyfrif pob cwsmer sy'n talu taliadau drwy ddidyniadau uniongyrchol o fudd-daliadau DWP cymwys. Rhoddir y gostyngiad hwn o £25 ar gyfer pob blwyddyn y bydd y cwsmer yn parhau i dalu drwy'r dull hwn.

### Casglu Dŵr

Cymhwysir gostyngiad blynyddol at gyfrif pob cwsmer sy'n talu taliadau drwy landlord cymdeithasol cofrestredig neu awdurdod lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Rhoddir y gostyngiad hwn o £10 ar gyfer pob blwyddyn y bydd y cwsmer yn parhau i dalu drwy'r dull hwn.

### Cymorth Dŵr Cymru

Mae'r tariff hwn yn seiliedig ar y rheoliadau a wnaed gan DEFRA o ran grwpiau sy'n agored i niwed ar gyfer cwmnïau dŵr yn Lloegr yn absenoldeb rheoliadau gan Gynulliad Cymru ac mae wedi'i bennu ar lefel ad-dalu, sy'n is na'r tâl cyfartalog a godir ar gwsmer preswyl ar gyfer dŵr a charthffosiaeth.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y tariff hwn, ni chaniateir i'r dŵr a gyflenwir i'r cartref gael ei ddefnyddio er mwyn dyfrio gardd gydag offer na ddelir â llaw megis

taenellwr neu system ddyfrhau domestig, neu ail-lenwi pwll neu bwll nofio sy'n gallu dal mwy na 10,000 o litrau. Mae'n rhaid bod y cwsmer neu unigolyn cymwys arall sy'n byw yn y cartref yn cael un o'r budd-daliadau neu'r credydau treth canlynol:

- Budd-dal y Dreth Cyngor (ac eithrio person sengl neu ostyngiad i bobl anabl)
- Budd-dal Tai
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant (heblaw am yr elfen deuluol yn unig)
- Credyd Pensiwn

AC, mae'n rhaid bod ganddynt dri neu fwy o blant o dan 19 oed mewn addysg lawn amser, sy'n byw yn y cartref ac yr hawlir budd-dal plant ar eu cyfer, NEU, bod gan y cwsmer neu unigolyn cymwys arall sy'n byw yno un o'r cyflyrau meddygol canlynol sy'n achosi iddynt ddefnyddio llawer mwy o ddŵr:

- Methiant arennol sy'n gofyn am ddialysis yn y cartref (heblaw pan fydd yr awdurdod iechyd yn cyfrannu at gost y dialysis)
- Stomau'r abdomen
- Digroeni (colli croen sy'n pilio)
- Clefyd croen diferol (ecsema, soriasis, briwiau chwyddedig)
- Anymataliaeth
- Clefyd Crohn
- Llid briwiol y coluddyn
- Unrhyw gyflwr arall sy'n golygu bod angen defnyddio llawer mwy o ddŵr.

Gellir gofyn am ffurflenni cais drwy ffonio **0800 052 0145** (bydd angen dangos dogfennau ategol). Ar ôl iddo gael y ffurflen gais wedi'i chwblhau a'r dogfennau ategol, gall y Cwmni gynnal gwiriadau dilysu gyda'r cyrff priodol. Y dyddiad gweithredol ar gyfer unrhyw hawliad fydd 1af Ebrill yn y flwyddyn filio pan dderbynnir y cais. Bydd angen i gwsmeriaid gadarnhau manylion am eu cymhwysedd bob blwyddyn.

Os yw'r ymgeisydd yn defnyddio mesurydd dŵr a bod y taliad a gaiff ei gyfrifo ar sail y defnydd gwirioneddol a nodir ar y mesurydd, gan ddefnyddio'r tariff mesuredig safonol, yn llai na thariff 'Cymorth Dŵr Cymru', bydd y bil yn seiliedig ar y darlleniad gwirioneddol. Fel arall ni fydd y bil yn uwch na lefel 'Cymorth Dŵr Cymru'.

Os nad oes gan ymgeisydd fesurydd ar hyn o bryd, nid oes angen iddo ddewis cael mesurydd. Fodd bynnag, bydd angen i ymgeiswyr sy'n cael eu gwasanaeth carthffosiaeth gan gwmni arall gael mesurydd er mwyn i'r cwmni hwnnw godi ei dariff carthffosiaeth 'WaterSure' arnynt. Fel arall, codir tariff 'Cymorth Dŵr Cymru' arnynt ar gyfer eu gwasanaeth dŵr, a chodir tariff safonol y cwmni carthffosiaeth arnynt ar gyfer eu gwasanaeth carthffosiaeth yn unol â chynllun taliadau'r cwmni hwnnw.

Dylid cyfeirio pob cais ar gyfer Cymorth Dŵr Cymru i'r cwmni bilio. Dylai cwsmeriaid sy'n cael eu gwasanaeth dŵr gan gwmni dŵr arall wneud cais i'r cwmni hwnnw am ei dariff WaterSure (y tariff cymorth sy'n berthnasol i gwmnïau dŵr yn Lloegr). Bydd gan gwsmeriaid sy'n gymwys i gael y tariff hwnnw'r hawl hefyd i gael tariff Cymorth Dŵr Cymru am eu gwasanaeth carthffosiaeth.

## 6. Sut i Dalu

### Debyd uniongyrchol

Gall cwsmeriaid sefydlu cynllun debyd uniongyrchol ar-lein yn **www.dwrcymru.com** neu drwy ein ffonio ar **0800 052 5604**. Gellir talu debydau uniongyrchol bob blwyddyn, ddwywaith y flwyddyn neu bob mis. Gall

cwsmeriaid â mesurydd dalu ar y 1af, yr 8fed, y 15fed neu'r 23ain o'r mis os byddant yn talu bob mis, neu ar ddyddiad y cytunir arno gyda'r cwsmer os byddant yn talu ddwywaith y flwyddyn. Hawlir taliad 14 diwrnod ar ôl i'r bil gael ei anfon, a chaiff hyn ei bennu yn ôl y dyddiad y darllenwyd y mesurydd. Gall cwsmeriaid heb fesurydd dalu ar y 1af, yr 8fed, y 15fed neu'r 23ain o'r mis os byddant yn talu bob mis, ar 1af Ebrill a 1af Hydref os byddant yn talu ddwywaith y flwyddyn, neu ar 1af Ebrill os byddant yn talu bob blwyddyn.

### Cardiau Credyd / Debyd

Gall cwsmeriaid dalu drwy ddefnyddio eu cardiau debyd/credyd, unrhyw bryd, naill ai ar-lein yn **www.dwrcymru.com** neu drwy ffonio **0800 028 5209**, sef ein llinell dalu awtomataidd. Gall cwsmeriaid dalu drwy ddefnyddio'r rhan fwyaf o gardiau credyd/debyd naill ai'n llawn neu drwy randaliadau pan fydd y taliad yn ddyledus.

### Llyfr talu

Gall cwsmeriaid â mesurydd sy'n defnyddio llyfr talu dalu bob mis, a gall cwsmeriaid heb fesurydd dalu bob mis neu bob pythefnos. Gellir gwneud taliadau mewn swyddfa bost, mewn banc, drwy allfa PayPoint neu drwy awdurdod lleol.

### Cerdyn talu

Gall cwsmeriaid sy'n defnyddio cerdyn talu dalu bob mis neu bob pythefnos mewn swyddfa bost neu drwy ddefnyddio allfa PayPoint.

### Taliadau arian parod

Gall cwsmeriaid sy'n talu gydag arian parod wneud hynny naill ai'n llawn neu drwy randaliadau drwy ddefnyddio'r bonyn talu ar y llyfr bilio/talu neu'r cerdyn talu:

- mewn swyddfa bost neu fanc (am ddim mewn unrhyw gangen o Natwest neu fanc y cwsmer ei hun)
- drwy allfa PayPoint
- drwy awdurdod lleol (dim ond rhai awdurdodau lleol sy'n derbyn taliadau)

### Talu drwy Siec

Gall cwsmeriaid dalu drwy siec naill ai'n llawn neu drwy randaliadau. Mae'n rhaid i gyfeirnod y cwsmer gael ei ysgrifennu ar gefn y siec, a dylid nodi 'A/C Payee'. Mae'n rhaid i'r cwsmer ddefnyddio'r bonyn talu ar y llyfr bilio/talu neu'r cerdyn talu, a gall dalu:

- mewn banc (am ddim mewn unrhyw gangen o Natwest neu fanc y cwsmer ei hun)
- drwy allfa PayPoint
- drwy awdurdod lleol (dim ond rhai awdurdodau lleol sy'n derbyn taliadau)
- neu gall cwsmeriaid anfon siec yn daladwy i 'Dŵr Cymru Cyf' yn:

Dŵr Cymru
Gwasanaethau Cwsmeriaid
Blwch SP 690
Caerdydd CF3 5WL

Fel arfer caiff biliau anfesuredig eu hanfon ym mis Chwefror/Mawrth bob blwyddyn ac maent yn daladwy ar 1af Ebrill oni bai bod trefniant amgen o dalu wedi'i drefnu gyda'r Cwmni. Pan gaiff y taliadau anfesuredig eu talu'n llawn, erbyn 1af Ebrill 2011, bydd y Cwmni yn tynnu 1.5% oddi ar y bil.

Fel arfer caiff biliau mesuredig eu hanfon i gartrefi bob chwe mis mewn ôl-daliadau ac maent yn daladwy ar alwad oni bai bod trefniant amgen o dalu wedi'i drefnu gyda'r Cwmni.

Mae'r Cwmni'n cadw'r hawl i bennu amlder biliau cwsmeriaid Dibreswyl. Fodd bynnag, yn gyffredinol, caiff cwsmeriaid dibreswyl eu bilio bob chwarter, os yw'r taliadau cyfunol am ddŵr a charthffosiaeth yn fwy na £750 bob chwarter neu bob mis, os yw'r taliadau cyfunol am ddŵr a charthffosiaeth yn fwy na £2,000 bob mis. Mae biliau yn daladwy o fewn 14 diwrnod. Caiff cwsmeriaid sy'n cael y tariff diwydiannol eu bilio bob mis.

Gall cwsmeriaid preswyl a'r cwsmeriaid dibreswyl hynny nad ydynt yn talu TAW ar daliadau ac nad oes ganddynt ôl-ddyledion ar adeg y cais dalu drwy randaliadau. Bydd methu â thalu unrhyw randaliad erbyn y dyddiad dyledus yn arwain at dynnu'r cynllun rhandaliadau yn ôl heb rybudd a bydd balans y taliadau sy'n ddyledus yn daladwy ar unwaith.

Gellir gweld opsiynau talu a gwybodaeth am ble i dalu ar gefn eich bil hefyd.

**Cymorth i Gwsmeriaid**

Rydym yn deall y gall rhai cwsmeriaid gael anhawster i dalu eu biliau dŵr, ac rydym am eu helpu. Dylai cwsmeriaid gysylltu â ni drwy ffonio **0800 052 0145**. Efallai y byddwn yn gallu trefnu i daliadau gael eu gwneud drwy randaliadau bob wythnos, bob pythefnos neu bob mis.

Efallai y byddwn hefyd yn gallu lleihau taliadau cwsmer os yw'n cael Cymhorthdal Incwm/ Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm neu Gredyd Pensiwn, a gall yr Adran Gwaith a Phensiynau drefnu bod taliadau yn cael eu gwneud i ni yn uniongyrchol o'r budd-dal – gelwir hyn yn Gynllun Didyniadau Trydydd Parti. Rydym hefyd yn gweithredu Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid a all gynnig cymorth ariannol i gwsmeriaid sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster ac sydd ag ôl-ddyledion. Dylai cwsmeriaid ein ffonio ar **0800 052 0145** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cwsmeriaid sy'n cytuno i unrhyw weithdrefn ansolfedd ffurfiol**

Pan fydd Cwsmer yn cytuno i unrhyw weithdrefn ansolfedd ffurfiol bydd y Cwmni yn dosrannu unrhyw daliadau bob dydd hyd at y dyddiad yn union cyn y dyddiad y daw'r weithdrefn ansolfedd berthnasol yn weithredol ('dyddiad yr ansolfedd'). Bydd unrhyw daliadau wedi'u dosrannu ar ôl dyddiad yr ansolfedd yn daladwy gan ddeiliad yr eiddo dan sylw a byddant yn gymwys o ddiwrnod nesaf deiliadaeth ar ôl dyddiad yr ansolfedd. Ni fydd unrhyw daliadau wedi'u dosrannu o'r fath yn dod o dan y weithdrefn ansolfedd. Bydd y taliadau'n daladwy gan y deiliad yn unol â'r un telerau talu ag a fyddai'n gymwys pe bai'r eiddo newydd gael ei gysylltu y diwrnod hwnnw. Os bydd angen cyngor annibynnol ar gwsmeriaid, gallant gysylltu ag asiantaeth gynghori leol megis:

**Y Llinell Ddyled Genedlaethol**
Rhadffon - **0808 808 4000**
Tricorn House, 51-53 Hagley Road, Edgbaston,
Birmingham,
B16 8TP
**www.nationaldebtline.co.uk**

**Gwasanaeth Cwnsela ar Gredyd Defnyddwyr**
Rhadffon - **0800 138 1111**
**www.cccs.co.uk**

**Canolfan Cyngor ar Bopeth**
Chwiliwch yn eich 'yellow pages' lleol neu gyfeirlyfr lleol Thomson am gyfeiriad a rhifau ffôn
**www.citizensadvice.org.uk**

**Cyngor Cyfreithiol Cymunedol**
(Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol Uniongyrchol gynt)
**0845 345 4345**
**www.clsdirect.org.uk**

**Moneyline Cymru**
Chwiliwch yn eich 'yellow pages' lleol neu gyfeirlyfr lleol Thomson am gyfeiriad a rhifau ffôn
**www.moneylinecymru.co.uk**

Beth bynnag fo'r sefyllfa, mae'n bwysig bod cwsmeriaid yn cysylltu â ni ar unwaith.

## 7. Taliadau Anfesuredig Safonol

| Gwasanaethau Dŵr Anfesuredig | £ |
|---|---|
| Tâl Sefydlog | 112.55 |
| Tâl yn seiliedig ar werth ardrethol - fesul punt o werth ardrethol | 0.7082 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 204.62 |
| **Taliadau Carthffosiaeth Anfesuredig** | |
| Tâl Sefydlog | 152.27 |
| Tâl Sefydlog - ad-daliad Dŵr Wyneb | 107.27 |
| Tâl yn seiliedig ar werth ardrethol - fesul punt o werth ardrethol | 1.0013 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 282.44 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf - ad-daliad Dŵr Wyneb | 237.44 |
| Dŵr wyneb yn unig - gan gynnwys draenio'r briffordd<br>(ni chodir tâl ar gyfer eiddo â gwerth ardrethol o £25 neu lai) | 101.00 |

## 8. Taliadau Mesuredig Safonol

| | Dŵr £ | Carthffosiaeth £ |
|---|---|---|
| Cyfradd gyfeintiol safonol fesul metr ciwbig | 1.2522 | 1.5400 |
| Cyfradd gyfeintiol carthffosiaeth - ad-daliad dŵr wyneb fesul metr ciwbig | | 1.2145 |
| **Tâl Sefydlog** | | |
| Hyd at 20mm o ddŵr yn unig | 30.00 | Ddim yn berthnasol |
| Hyd at 20mm | 30.00 | 71.00 |
| 25mm | 89.00 | 228.00 |
| 30mm | 152.00 | 327.00 |
| 40mm | 280.00 | 486.00 |
| 50mm | 419.00 | 842.00 |
| 65mm | 559.00 | 1,350.00 |
| 80mm | 741.00 | 1,954.00 |
| 100mm | 882.00 | 3,430.00 |
| 150mm | 1,136.00 | 7,760.00 |
| 200mm a throsodd | 1,136.00 | 13,728.00 |

## 9. Cymorth Dŵr Cymru /WaterSure

### Cymorth Dŵr Cymru

| | Dŵr £ | Carthffosiaeth £ |
|---|---|---|
| Tariff blynyddol | 120.00 | 120.00 |

### WaterSure (Mesuredig yn Unig)

| Tariff blynyddol | Dŵr £ | Carthffosiaeth £ |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Llawn | 172.00 | 241.00 |
| Carthffosiaeth Dŵr Budr yn Unig | 172.00 | 196.00 |

Noder: Bydd pob cwsmer sy'n gymwys i gael WaterSure yn gymwys yn awtomatig i gael Cymorth Dŵr Cymru a chodir tâl arno ar y sail honno.

## 10. Taliadau eraill ar gyfer Mesuryddion

| Gosod cofnodwr mesurydd - ar gael ar gyfer mesuryddion 20-25mm | |
|---|---|
| £60 gan gynnwys TAW | Gall cofnodwr, sy'n mesur galw mewn cyfnodau o 15 munud, helpu cwsmeriaid i ddeall eu patrymau defnydd a chanfod a oes unrhyw ollyngiadau yn y cyflenwad. Caiff y tâl ei ad-dalu os bydd gorddefnydd oherwydd gollyngiadau o bibellau Dŵr Cymru |
| **Profi - Preswyl (taliadau'n cynnwys TAW)** | |
| Tynnu'r mesurydd i'w brofi | Rhoddir treuliau rhesymol hyd at uchafswm o £70<br>Anfonir yr anfoneb at y cwsmer os bydd canlyniadau'r profion yn dangos bod y mesurydd yn cofnodi o fewn paramedrau a ganiateir. Os canfyddir bod y mesurydd yn ddiffygiol, ni chodir tâl am y prawf |
| Unrhyw achos arall | £20 |
| **Profi - Dibreswyl (TAW i'w hychwanegu)** | |
| Codir ar gost | Os canfyddir bod y mesurydd yn ddiffygiol, ni chodir tâl am y prawf |

| Taliadau Darllen Mesuryddion Anghyffredin | |
|---|---|
| Yn unol â'n Cod Ymarfer Darllen Mesuryddion, rydym yn cadw'r hawl i adennill unrhyw gostau darllen mesuryddion ychwanegol yr eir iddynt o ganlyniad i ymddygiad afresymol parhaus gan gwsmer. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol: | |
| Ymweliad aflwyddiannus i ddarllen mesurydd | £20 (gan gynnwys TAW) |
| Gwirio darlleniadau yn dilyn darlleniadau amcangyfrif | £20 (gan gynnwys TAW) |
| Hysbysiad o Fynediad/Gwarant Mynediad | Cost wirioneddol |
| Costau cyfreithiol neu gostau arbenigol eraill | Cost wirioneddol |

**Newid mesurydd**

Pan fydd y Cwmni yn gallu gosod mesurydd newydd y gellir ei sgriwio i mewn i flwch ffin sydd eisoes yn bodoli heb wneud gwaith ychwanegol, codir tâl o £87. Fel arall dangosir y tâl a godir yn y tabl isod.

(Os na fydd y mesurydd yn cofnodi'r llif yn gywir, caiff un newydd ei osod am ddim)

| Maint y mesurydd presennol (mm) | Tâl (£) heb gloddio (TAW i'w hychwanegu) | Tâl (£) gyda chloddio (TAW i'w hychwanegu) |
|---|---|---|
| Hyd at 25mm | 112.00 | 395.00 |
| 40mm | 165.00 | 492.00 |
| 50mm | 291.00 | 615.00 |
| 65mm | 570.00 | 1,010.00 |
| 80mm | 624.00 | 1,097.00 |
| 100mm | 736.00 | 1,238.00 |
| 150mm | 919.00 | 1,313.00 |
| 200mm | 1,164.00 | 1,795.00 |
| Dros 200mm | Cost Wirioneddol | Cost Wirioneddol |
| Ail-leoli mesurydd | | |
| Ceisiadau ysgrifenedig i'r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid, gan roi rhesymau. Gellir codi tâl ar y cwsmer ar gyfer treuliau rhesymol. | | |

**Os bydd angen newid eich taliadau, gwneir hyn yn unol ag Adran 8 a 9 o Reoliadau (Mesuryddion) Dŵr 1988.**

## 11. Amcangyfrif Tâl Mesuredig

### Preswyl - Dŵr

| Nifer y deiliaid | Band A - Defnydd ar gyfartaledd<br>Yn seiliedig ar unedau/cyfarpar llwytho yn yr eiddo | | BAND B - Defnydd isel<br>Yn seiliedig ar unedau/cyfarpar llwytho yn yr eiddo | |
|---|---|---|---|---|
| | Tâl Sefydlog £ | Defnydd $m^3$ / y flwyddyn | Tâl Sefydlog £ | Defnydd $m^3$ / y flwyddyn |
| 1 | 110.00 | 64 | 95.00 | 52 |
| 2 | 150.00 | 96 | 128.00 | 78 |
| 3 neu fwy | 197.00 | 133 | 164.00 | 107 |

## Preswyl - Carthffosiaeth

| Nifer y deiliaid | Band A - Defnydd ar gyfartaledd<br>Yn seiliedig ar unedau/cyfarpar llwytho yn yr eiddo | | Band B - Defnydd isel<br>Yn seiliedig ar unedau/cyfarpar llwytho yn yr eiddo | |
|---|---|---|---|---|
| | Tâl Sefydlog £ | Tâl Gostyngol £ | Tâl Sefydlog £ | Tâl Gostyngol £ |
| 1 | 165.00 | 145.00 | 147.00 | 131.00 |
| 2 | 211.00 | 182.00 | 185.00 | 161.00 |
| 3 neu fwy | 266.00 | 224.00 | 228.00 | 194.00 |

## Dibreswyl - Dŵr

| Band (yn seiliedig ar y math o fusnes) | Defnydd $M^3$/y flwyddyn | Tâl Sefydlog £ (Dŵr) |
|---|---|---|
| 1 | Llai na 500 | 531.00 |
| 2 | 501 - 1000 | 1,032.00 |
| 3 | 1001 - 2000 | 2,159.00 |
| 4 | 2001 - 4000 | 3,912.00 |

## Dibreswyl - Carthffosiaeth

| Band (yn seiliedig ar y math o fusnes) | Defnydd $M^3$/y flwyddyn | Tâl Sefydlog £ Carthffosiaeth | Tâl Gostyngol £ Carthffosiaeth - dim draenio dŵr wyneb |
|---|---|---|---|
| 1 | Llai na 500 | 656.00 | 533.00 |
| 2 | 501 - 1000 | 1,241.00 | 994.00 |
| 3 | 1001 - 2000 | 2,558.00 | 2,032.00 |
| 4 | 2001 - 4000 | 4,606.00 | 3,648.00 |

# 12. Tariff Diwydiannol

## Dŵr

| DŴR YFADWY | | | |
|---|---|---|---|
| Band | Defnydd dangosol Ml/y flwyddyn | Tâl sefydlog £ | Tâl cyfeintiol £/$m^3$ |
| Safonol | <50 | * | 1.2522 |
| 1 | 50 - 99 | 16,050.00 | 0.9318 |
| 2 | 100 - 249 | 24,210.00 | 0.8502 |
| 3 | 250 - 499 | 52,960.00 | 0.7352 |
| 4 | 500 - 999 | 80,810.00 | 0.6795 |
| 5 | >1000 | 109,810.00 | 0.6505 |

* gweler y tariff mesuredig safonol

| DŴR ANYFADWY | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Band | Defnydd dangosol Ml/y flwyddyn | Tâl Sefydlog £ | Tâl Cyfeintiol am Driniaeth Rannol £/m³ | Tâl Cyfeintiol am Ddŵr heb ei drin £/m³ |
| A | <50 | * | 1.1268 | 1.0491 |
| B | >50 | 36,575 | 0.3970 | 0.3193 |

* gweler y tariff mesuredig safonol

**CARTHFFOSIAETH**

**Tâl cyfeintiol fesul metr ciwbig** **£1.4557**

**Tâl cyfeintiol gostyngol fesul metr ciwbig** **£1.1481**

## 13. Taliadau Amrywiol

| Eitem | Tâl | |
|---|---|---|
| Ailgysylltu ar ôl datgysylltiad dros dro Noder - Efallai na fydd yn bosibl datgysylltu cyflenwad ar y cyd dros dro | £35.00 | I wneud cais, ffoniwch 0800 052 0130. Gall tâl draenio dŵr wyneb fod yn gymwys o hyd. Ni chodir tâl am ddatgysylltu dros dro |
| Datgysylltu – parhaol | Dim tâl | Ceisiadau ysgrifenedig i'r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| Ailgysylltu - yn dilyn datgysylltiad parhaol | Bydd taliadau cysylltiadau newydd yn gymwys | Gweler Taliadau Cysylltiadau Newydd - Adran 17 |
| Datgysylltu - peidio â thalu | Gweler Ailgysylltu ar ôl talu dyledion | |
| Ailgysylltu –ar ôl talu taliadau heb eu talu Noder – ni allwn ddatgysylltu safleoedd preswyl yn unig am fethu â thalu | £80.00 | Bydd y tâl yn cynnwys costau datgysylltu ac ailgysylltu. Efallai y bydd angen blaendal sicrwydd arnom gan gwsmeriaid dibreswyl (h.y. un cylch bilio a thaliadau 3 mis) |
| Gwybodaeth a dogfennau copi (gan gynnwys dogfennau cyfreithiol) | £43.00 +TAW | Codir tâl safonol am unrhyw wybodaeth nas darperir am ddim. Codir tâl am ymholiadau eraill ar gost |
| Copïo papur gwaith billo | £21.00 + TAW (hyd at faint A3) | Fesul bil neu ddogfen debyg. Ni chodir tâl fel arfer am y cais cyntaf |

| Rhag-gynllunio* | | |
|---|---|---|
| Lefel 1 | £143 + TAW ar gyfer dŵr a dŵr gwastraff | Cyfeiriwch at y Canllaw i Ddatblygwyr ar gyfer y wybodaeth a ddarperir |
| Lefel 2 | Costau i'w cadarnhau yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig.<br><br>Noder: Er mwyn darparu gwasanaeth Rhag-gynllunio, mae angen i ddatblygwyr roi rhywfaint o wybodaeth. Mae angen cwblhau pecynnau cais ar gyfer y gwasanaethau hyn. Mae'r pecynnau ar gael oddi wrth ein Tîm Datblygu Gwasanaethau neu gellir eu lawrlwytho o'r adran Canllaw i Ddatblygwyr yn www.dwrcymru.com | Cyfeiriwch at y Canllaw i Ddatblygwyr ar gyfer y wybodaeth a ddarperir |
| Map Dŵr/ Carthffosiaeth | £21.00 fesul copi* | Ar gyfer A4 neu A3. Ychwanegir TAW os caiff map ei gopïo; os caiff y map ei argraffu nid ychwanegir TAW |
| Map cyfan | £31.00 fesul copi* | Graddfa 1:1250 neu 1:2500. Ychwanegir TAW os caiff map ei gopïo; os caiff y map ei argraffu nid ychwanegir TAW |

| Chwiliad Draenio a Dŵr* | | |
|---|---|---|
| Pecyn Gwybodaeth am Eiddo Gwybodaeth am Ddraenio a Dŵr / CON29DW | £25.53 + TAW | |
| Gwaredu gwastraff carthbwll, tanc carthion neu dancer# (Anfonir anfoneb ar ôl y gwaith gwaredu) | | |
| 0 - 2,000 mg/L | £4.36 fesul metr ciwbig | Yn amodol ar isafswm taliad yn seiliedig ar lwyth o 4.5 metr ciwbig (tua 1,000 o alwyni) |
| 2,001 - 20,000 mg/L | £7.22 fesul metr ciwbig | |
| Mwy na 20,000 mg/L ## | £10.45 fesul metr ciwbig | |
| Taliadau eraill | | |
| Achosion Gweithredol nad ydynt yn Rhai Brys | Costau rhesymol | Anfonebir y tâl yn dilyn y digwyddiad |
| Sieciau a Ddychwelwyd | £20.00 | Am bob siec. Anfonebir y tâl yn dilyn pob digwyddiad |

Ar gyfer cysylltiadau dŵr/carthffosydd, seilwaith newydd a materion cynllunio neu ddatblygu, cysylltwch â:

Gwasanaethau Datblygwyr, Blwch SP 3146, Linea, Ffordd Fortran, Caerdydd, CF30 0EH.
Ffôn: 0800 917 2652 E-bost: developerservices@dwrcymru.com

# Nid yw'r Cwmni yn casglu gwastraff tanc carthion na gwastraff carthbwll domestig fel rhan o wasanaeth carthffosiaeth. Bydd y tâl am garthbwll yn gyfyngedig i waith carthffosiaeth lle mae dynion yn gweithio'n barhaol. Gellir cael manylion y safleoedd hyn drwy ffonio ein hadran Gwasanaethau Carthffosiaeth ar 0800 085 3968.
## Mae'r Cwmni yn cadw'r hawl i wrthod gwastraff sy'n cynnwys mwy na 20,000 mg/l o solidau mewn daliant.

## 14. Cyflenwadau Arbennig

| Eitem | | |
|---|---|---|
| Dŵr Tancer | Ar gais (yn daladwy ymlaen llaw) | |
| Safbibellau (taliadau'n daladwy ymlaen llaw, caiff TAW ei hychwanegu) | | |
| Blaendal ad-daladwy | £207.00 | Ni thelir y blaendal yn ôl os difrodir y safbibell yn rhannol neu'n gyfan gwbl |
| Math 1, diamedr mewnol o 20mm | £67.00 | Ar gyfer hyd at bedair wythnos, neu ran o'r cyfnod |
| Fesul wythnos ychwanegol | £16.00 | Neu ran ohoni |
| Llogi chwe mis | £379.00 | |
| Llogi 12 mis | £760.00 | |
| Diamedr mewnol o 50mm | £3,070.00 | Tâl blynyddol. Defnydd cyfyngedig. Efallai y darperir allwedd yn hytrach na safbibell os bydd pyst stondin hydrant mesuredig ar gael |
| Gwaith adeiladu | | |
| Safleoedd presennol | Mae'r Cwmni yn cadw'r hawl i osod mesurydd os daw safle'n wag, neu os bydd yn destun gwaith adnewyddu neu addasu | |
| Safleoedd adeiladu mawr a gwaith peirianneg sifil | £207.00 | Blaendal ad-daladwy fesul mesurydd; ni chaiff ei dalu'n ôl os difrodir y mesurydd. Yn daladwy ar ben taliadau defnydd |
| Dŵr Llongau (caiff y cwsmer ei anfonebu) | | |
| Yn ystod oriau swyddfa (9.00am - 5.00pm) | £35.10 + £4.71 fesul metr ciwbig a gyflenwir | |
| Y tu allan i oriau swyddfa | £68.00 + £5.55 fesul metr ciwbig a gyflenwir | |

## 15. Hydrantau tân a thrwsio cyflenwadau

| Hydrantau Tân | Sylwadau Ychwanegol | £ |
|---|---|---|
| Gosod hydrant | Ar brif bibell newydd (diamedr 80-200mm) | 556 + TAW |
| Gosod hydrant | Ar brif bibell bresennol (diamedr 80-200mm) | 1,014 + TAW |
| Gosod postyn/plât marcio | Ar adeg gosod/trwsio'r hydrant | 107 + TAW |
| Tynnu'r hydrant | Oddi ar y brif bibell bresennol (diamedr 80-200mm) | 480 + TAW |
| Trwsio'r hydrant | Categori 1 (e.e. caead a ffrâm) | 188 + TAW |
| Trwsio'r hydrant | Categori 2a (e.e. caead, ffrâm a darn o siambr) | 350 + TAW |
| Trwsio'r hydrant | Categori 2b (e.e. caead, ffrâm, ailosod, gosod wasier newydd) | 562 + TAW |
| Trwsio'r hydrant | Categori 3 (gosod hydrant newydd) | 622 + TAW |
| **Trwsio pibellau'r Cwmni (Ni chodir TAW)** | | |
| Pibell wasanaeth | Cloddio/adfer gan eraill (gan gynnwys hyd at bum metr o bibell) | 248.00 |
| Pibell wasanaeth | Pob metr ychwanegol | 28.00 |
| Pibell wasanaeth | Cloddio hyd at bum metr ar dir diwyneb | 279.00 |
| Pibell wasanaeth | Pob metr ychwanegol | 31.00 |
| Pibell wasanaeth | Cloddio hyd at bum metr ar dir arwyneb | 360.00 |
| Pibell wasanaeth | Pob metr ychwanegol | 31.00 |
| Prif bibell llai na 200mm mewn diamedr (coler) | Cloddio/adfer gan eraill | 331.00 |
| " " | Cloddio hyd at ddau fetr ar dir diwyneb, gan osod coler neu glamp | 606.00 |
| " " | Cloddio hyd at ddau fetr ar dir arwyneb, gan osod coler neu glamp | 606.00 |
| Prif bibell llai na 200mm mewn diamedr (hyd 3m) | Cloddio/adfer gan eraill hyd at dri metr | 535.00 |
| " " | Pob metr ychwanegol | 36.00 |
| " " | Cloddio hyd at dri metr ar dir diwyneb | 670.00 |
| " " | Pob metr ychwanegol | 64.00 |
| " " | Cloddio hyd at dri metr ar dir arwyneb | 670.00 |
| " " | Pob metr ychwanegol | 74.00 |

**Codir y costau gwirioneddol yn achos gwaith trwsio ar brif bibellau dros 200mm mewn diamedr.**

## 16. Cysylltiadau Newydd

### Dŵr

Mae'r taliadau'n daladwy gan yr unigolyn sy'n gofyn am y cysylltiad ac fel arfer maent yn ddyledus cyn i'r cysylltiad gael ei wneud. Mae'n rhaid i bob safle gael cysylltiad ar wahân. Caiff pob cysylltiad newydd ei osod gyda mesurydd. Codir TAW ar bob taliad ar gyfer cysylltiad newydd Hunanosod. Codir TAW ar daliadau eraill ar gyfer cysylltiad newydd oni bai bod yr eiddo a gaiff ei gysylltu yn annedd newydd neu'n adeilad cymwys arall sy'n cael ei adeiladu, ac maent yn daladwy ymlaen llaw. Maint safonol cysylltiad y Cwmni â safleoedd preswyl neu fasnachol yw 25mm diamedr allanol. Gall taliadau seilwaith hefyd fod yn daladwy – gweler Adran 17.

**Hysbysiad Pwysig - Caiff Taliadau Trwydded Agor Ffordd, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004, eu hychwanegu at daliadau ar gyfer cysylltiadau newydd pan gânt eu cyflwyno yn ardal weithredu Dŵr Cymru. Yr isafswm ffi a ragwelir fydd £25 fesul cloddiad.**

| Darparu cysylltiad - Dau fetr cyntaf y bibell ar gyfer cysylltiad hyd at a chan gynnwys 32mm | | |
|---|---|---|
| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
| Hunanosod | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad | 133.00 |
| Dim angen cloddio nac adfer | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad | 251.00 |
| Metr ychwanegol (neu ran ohono) ar gyfer yr uchod | Cyflenwi hyd at fetr o bibell yn ogystal â llafur | 10.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac adfer tir diwyneb | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu gro | 398.00 |
| Metr ychwanegol (neu ran ohono) ar gyfer yr uchod | Cyflenwi hyd at fetr o bibell yn ogystal â llafur | 21.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac adfer tir arwyneb (llwybr troed neu is-ffordd) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 517.00 |
| Metr ychwanegol (neu ran ohono) ar gyfer yr uchod | Cyflenwi hyd at fetr o bibell yn ogystal â llafur | 63.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac adfer tir arwyneb (prif ffordd neu pan fo angen llogi goleuadau traffig) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen | 647.00 |
| Metr ychwanegol (neu ran ohono) ar gyfer yr uchod | Cyflenwi hyd at fetr o bibell yn ogystal â llafur | 112.00 |
| Siambr i'r mesurydd | Adeiladu siambr i'r mesurydd | 285.00 |
| Mynediad i Dir | Cael cymeradwyaeth (au) ar gyfer mynediad i dir | 197.00 |

| Cysylltiad maniffold - ar gyfer rhwng pedwar a chwe chysylltiad allanol (gan gynnwys hyd at ddau fetr o bibell) | | |
|---|---|---|
| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
| Hunanosod | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad | 253.00 |
| Dim angen cloddio nac adfer | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad | 930.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac adfer tir diwyneb | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu gro | 1,194.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac adfer tir arwyneb (llwybr troed neu is-ffordd) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen, rheoli traffig os bydd angen | 1,433.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac adfer tir arwyneb (prif ffordd neu pan fo angen llogi goleuadau traffig) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen | 1,670.00 |
| Metr Ychwanegol – gweler cysylltiad safonol | | |

| Cysylltiad cangen - gan gynnwys hyd at ddau fetr o bibell | | |
|---|---|---|
| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
| Hunanosod | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad | 253.00 |
| Dim angen cloddio nac adfer | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad | 930.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac adfer tir diwyneb | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu gro | 1,194.00 |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac adfer tir arwyneb (llwybr troed neu is-ffordd) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen, rheoli traffig os bydd angen | 1,433.00 |

*Parhad drosodd*

| Cysylltiad cangen - gan gynnwys hyd at ddau fetr o bibell | | |
|---|---|---|
| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
| Dŵr Cymru yn cloddio ac adfer tir arwyneb (prif ffordd neu pan fo angen llogi goleuadau traffig) | Asesu cais, rhoi dyfynbris, prosesu'r taliad, darparu deunyddiau gwaith dŵr, gosod y cysylltiad, cloddio ac adfer asffalt a roliwyd yn boeth, rheoli traffig os bydd angen | 1,670.00 |
| Metr Ychwanegol – gweler cysylltiad safonol | | |

| Darparu mesurydd - hyd at a chan gynnwys 30mm | | |
|---|---|---|
| Disgrifiad | Y gwaith | £ |
| Hunanosod | Darparu mesurydd, cynnal archwiliad o'r uned, nodi manylion y cwsmer | 22.00 |
| Safleoedd amlfeddiannaeth | Darparu mesurydd, darparu darllenydd o bell neu bad cyffwrdd, gosod y mesurydd, cynnal archwiliad o'r uned, nodi manylion y cwsmer | 69.00 |
| Safleoedd eraill | Darparu mesurydd, gosod y mesurydd, cynnal archwiliad o'r uned, nodi manylion y cwsmer | 22.00 |

**Ar gyfer cysylltiadau dros 40mm a hyd at 65mm codir tâl ychwanegol o £473.00.**

| Taliadau eraill | | £ |
|---|---|---|
| Ymweliad aflwyddiannus (nid yw'r safle'n barod - mwy nag un cysylltiad) | | 175.00 |
| Dŵr adeiladu | | 44.00 |
| Arolygiad Ansawdd o Gysylltiad Newydd – Yr Ymweliad Cyntaf | | Dim Tâl |
| Arolygiad Ansawdd o Gysylltiad Newydd – Cost fesul Ymweliad Ychwanegol | | 45.00 |
| Arolygiad Ansawdd o Gysylltiad Newydd – yr Ymweliad Cyntaf | | Ar gost |

Lle cynhelir gwaith nad oes tâl sylfaenol ar ei gyfer, codir tâl am y gwaith ar gost. Codir taliadau ychwanegol am geisiadau sy'n ymwneud ag ardaloedd o dir halogedig. Gellir cyfeirio unrhyw anghydfod am y swm a godir ar gyfer cysylltiad newydd, na ellir ei ddatrys, at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn y cyfeiriad a nodir ar dudalen 5.

## Carthffosiaeth

| Cysylltiadau â Charthffosydd – goruchwylio cysylltiadau carthffosiaeth (Ni chodir TAW) | |
|---|---|
| Yn ystod oriau swyddfa (9.00am - 5.00pm) | £165.00 |
| Y tu allan i oriau swyddfa | Ar gost |

| Cytundeb i adeiladu dros garthffos (Ni chodir TAW) | |
|---|---|
| Cyngor rhagarweiniol | Am ddim |
| Fetio a goruchwylio technegol | £165.00 |
| Cwblhau cytundeb cyfreithiol | £165.00 |

| Cytundeb i fabwysiadu carthffos (Ni chodir TAW) | |
|---|---|
| Archwilio cynigion a goruchwylio gwaith adeiladu | 2.5% o'r gost amcangyfrifedig – isafswm tâl o £250 |
| Cwblhau cytundeb cyfreithiol a gwaith trosglwyddo tir cysylltiedig | Ar gost |

| Dargyfeirio Carthffosydd (Ni chodir TAW) | |
|---|---|
| Goruchwylio dargyfeiriad mawr e.e. er mwyn caniatáu datblygiad tai | 2.5% o'r gost amcangyfrifedig – isafswm tâl o £560 |
| Goruchwylio dargyfeiriad bach e.e. o amgylch estyniad tŷ | £165.00 |
| Cwblhau cytundeb cyfreithiol a gwaith trosglwyddo tir cysylltiedig ar gyfer dargyfeiriad mawr neu fach | Ar gost |

## 17. Taliadau Seilwaith

Mae cysylltiadau newydd yn cynyddu'r pwysau ar y systemau dŵr a charthffosiaeth a gall hyn olygu y bydd angen gwneud gwaith arnynt yn y pen draw. Felly, yn ogystal â thâl am y cysylltiad dŵr, codir tâl seilwaith am gysylltiadau newydd. Gall y taliadau fod yn daladwy hefyd pan fo safle wedi'i ailddatblygu a'r ailddatblygiad hwnnw yn golygu bod galw'r safle yn fwy nag yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Fel arfer caiff y taliadau eu bilio ar yr un pryd â'r tâl a godir am y cysylltiad. Ni chodir TAW ar daliadau seilwaith.

Codir y taliadau isod ar gyfer eiddo preswyl safonol:

| | |
|---|---|
| Dŵr | £312 |
| Carthffosiaeth | £312 |

Caiff taliadau ar gyfer safleoedd dibreswyl eu cyfrifo drwy luosi'r tâl safonol â'r lluosydd perthnasol. Caiff y lluosydd perthnasol ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm yr unedau llwytho ar gyfer pob ffitiad dŵr yn y safle a gyflenwir a'i rannu â 24. Y rhif hwnnw neu 1 (pa un bynnag yw'r uchaf) yw'r lluosydd perthnasol.

| Math o eiddo | Math o ddefnydd | Taliadau ar gyfer Cysylltiadau Newydd | Credyd sydd ar gael os yw'r eiddo wedi bod yn wag am lai na phum mlynedd |
|---|---|---|---|
| | | Lluosydd Perthnasol | Lluosydd Perthnasol |
| Preswyl | Domestig | 1 | 1 |
| Dibreswyl | Domestig | Yn seiliedig ar unedau llwytho | Cyfeiriwch at y tabl lluosydd |
| Dibreswyl | Masnachol | Trwy gytundeb ond cyfeiriwch at y tabl isod fel canllaw i'r swm lleiaf | Cyfeiriwch at y tabl lluosydd |

## Canllaw i Luosyddion Perthnasol

Pennir taliadau am gyflenwadau dibreswyl drwy gytundeb. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni fydd y lluosydd perthnasol ar gyfer pob maint o gysylltiad yn llai na'r canlynol:

| Diamedr Mewnol | | Diamedr Allanol Metrig | Lluosydd Perthnasol |
|---|---|---|---|
| Imperial | Metrig | Metrig | |
| $^{1}/_{2}$" | 15mm | | 1 |
| $^{3}/_{4}$" | 22mm | 25mm | 1 |
| 1" | 25mm | 32mm | 4 |
| 1 $^{1}/_{4}$" | 30mm | 40mm | 6 |
| 1 $^{1}/_{2}$" | 40mm | 50mm | 9 |
| 2" | 50mm | 63mm | 16 |
| 2 $^{1}/_{2}$" | 65mm | 80mm | 25 |
| 3" | 80mm | 90mm | 36 |
| 4" | 100mm | 125mm | 64 |
| 6" | 150mm | 180mm | 144 |
| 8" | 200mm | 250mm | 256 |

**Pennir unedau llwytho drwy gyfeirio at y tabl a'r nodiadau canlynol.**

Pan ailddatblygir safle a bod cysylltiadau yn bodoli ar y safle o fewn pum mlynedd o ddechrau'r gwaith ailddatblygu, gostyngir cyfanswm y taliadau seilwaith dŵr ar gyfer y safle. Caiff uchafswm nifer y safleoedd â chysylltiadau dŵr ar y safle ar unrhyw adeg yn ystod y pum mlynedd blaenorol ei ddidynnu o gyfanswm y lluosyddion perthnasol ar gyfer y cysylltiadau sy'n deillio o'r ailddatblygiad. Bydd lluosi'r cyfanswm newydd â'r tâl safonol yn rhoi cyfanswm y tâl seilwaith dŵr ar gyfer y safle. Gwneir gostyngiad tebyg o ran cysylltiadau carthffosiaeth sydd eisoes ar y safle.

Os datgysylltir cyflenwad o fewn dwy flynedd i'w drefnu ac ni wneir unrhyw gysylltiadau pellach ar y safle, yna ad-delir 80% o'r swm a dalwyd.

Os bydd unrhyw anghydfod rhwng y Cwmni a'r unigolyn y codir unrhyw dâl seilwaith arno, gellir ei gyfeirio at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn y cyfeiriad a nodir ar dudalen 5. Gellir ychwanegu llog ar y gyfradd gyfredol at unrhyw symiau sy'n ddyledus ar ôl i'r cysylltiad gael ei wneud.

| Unedau Llwytho | |
|---|---|
| Ffitiad Dŵr | Unedau Llwytho |
| Seston fflysio toiled | 2 |
| Basn golchi mewn tŷ | 1.5 |
| Basn golchi mewn man arall | 3 |
| Baddon gyda thapiau maint 20mm | 10 |
| Baddon gyda thapiau sy'n fwy nag 20mm | 22 |
| Cawod | 3 |
| Sinc gyda thapiau 15mm | 3 |
| Sinc gyda thapiau sy'n fwy na 15mm | 5 |
| Tap chwistrellu | 0.5 |
| Bidet | 1.5 |
| Offer domestig (yn amodol ar isafswm o chwe uned llwytho fesul tŷ) | 3 |
| Offer cymunedol neu fasnachol | 10 |
| Unrhyw ffitiad dŵr neu allfa arall (gan gynnwys tap ond nid troethfa na meddalydd dŵr) | 3 |

Nodiadau:

1. Mae cyfeiriadau at unrhyw ffitiad yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw waith plymio, allfa, lle pwrpasol neu gynllunio neu ddarpariaeth arall ar gyfer y ffitiad hwnnw.
2. Mae baddon yn cynnwys baddon trobwll a Jacwsi.
3. Mae offer domestig yn golygu offer (gan gynnwys peiriant golchi llestri, peiriant golchi dillad ac uned gwaredu gwastraff) mewn tŷ.
4. Mae offer cymunedol neu fasnachol yn golygu offer (gan gynnwys peiriant golchi llestri, peiriant golchi dillad ac uned gwaredu gwastraff) mewn man arall ar wahân i dŷ (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol).

## 18. Taliadau Elifion Masnach

Gellir bilio am elifion masnach ar sail cyflenwadau dŵr sy'n dod i mewn ynghyd â lwfans neu heb lwfans yn dibynnu ar natur y fasnach a gynhelir ar y safle. Pan fydd y cwsmer yn mynnu bod cyfaint yr elifion a ollyngir yn llai na chyfaint y dŵr a gyflenwir a bod y Cwmni yn cytuno â hyn, bydd yr addasiadau i'r taliadau'n dod i rym o ddechrau'r cyfnod bilio y gwneir y cais ynddo.

Fel arall, gellir cyfrifo taliadau drwy ddefnyddio data llif a ddarperir gan y sawl sy'n gollwng yr elifion ar adeg y cytunir arni gan y Cwmni.

| | |
|---|---|
| Cais newydd am ganiatâd i ollwng elifion masnach (TAW ar gyfradd sero) | £281.00 |
| Adolygu'r caniatâd presennol ar gais y cwsmer (TAW ar gyfradd sero) | £281.00 |
| Copi o ganiatâd unigol i ollwng elifion masnach i garthffos (Codir tâl am unrhyw waith ymchwil neu ddadansoddi data ychwanegol ar gost) | £21.00 |

Pan fo'r gollyngiad dyddiol yn fwy na 100 metr ciwbig, dylai cyfarpar mesur llif gael ei osod gan y masnachwr ar bob un o'r gollyngiadau elifion masnach. Pan fo gollyngiadau dyddiol yn fwy na 250 metr ciwbig, mae'n rhaid i fasnachwyr osod cyfarpar mesur llif ac mae'n ddyletswydd arnynt i ddefnyddio a chynnal a chadw'r offer er boddhad y Cwmni. Bydd rhaid profi a chynnal a chadw'r cyfarpar yn unol â gofynion y Cwmni fel y nodir yn rheolaidd mewn gohebiaeth ysgrifenedig â'r sawl sy'n gollwng yr elifion.

### Gollwng i Waith Trin Carthion

Mae'r fformiwla naill ai'n

$C = R + V + S\frac{S_t}{S_s}$ Neu $C = R + V + V_b + B\frac{O_t}{O_s} + S\frac{S_t}{S_s}$

(gollwng i driniaeth sylfaenol yn unig) (gollwng i driniaeth eilaidd lawn)

Ble

**C** = taliad /m³ o elifion

**R** = costau carthffosiaeth /m³

**V** = costau triniaeth setlo sylfaenol /m³

$\mathbf{V_b}$ = costau triniaeth eilaidd yn ymwneud â chyfaint /m³

**B** = costau triniaeth eilaidd yn ymwneud â chryfder/m³

$\mathbf{O_t}$ = COD yr elifion ar ôl setlo mewn mg/l

$\mathbf{O_s}$ = COD y carthion domestig ar ôl setlo - 500 mg/l

**S** = costau trin llaid /m³

$\mathbf{S_t}$ = solidau mewn daliant yn yr elifion mewn mg/l

$\mathbf{S_s}$ = solidau mewn daliant mewn carthion domestig - 350 mg/l

### Gollwng i Ollyngfa i'r Môr:

Ar gyfer masnachwyr sy'n gollwng i ollyngfeydd hir i'r môr **C = R + M**

Ar gyfer masnachwyr sy'n gollwng i bob math o ollyngfa arall

**C = R Neu C = R +** $\mathbf{V_m}$

Lle mae **C** = taliad /m³

**R** = costau carthffosiaeth /m³

**M** = costau triniaeth forol /m³

$\mathbf{V_m}$ = costau pwmpio, triniaeth ragarweiniol /m³

## Tariff Safonol:

Mae'r taliad unedol safonol fesul metr ciwbig fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **R** | Y gost ar gyfartaledd am dderbyn metr ciwbig o ddŵr budr i mewn i'r garthffos, gan gynnwys ei drawsgludo i'r gwaith trin neu'r ollyngfa | **£0.2973** |
| **V** | Y gost ar gyfartaledd am elfennau pwmpio a setlo'r driniaeth fiolegol | **£0.3382** |
| **$V_b$** | Y gost ar gyfartaledd am elfennau pwmpio a setlo'r driniaeth fiolegol | **£0.1405** |
| **B** | Y gost ar gyfartaledd am driniaeth fiolegol, ac eithrio pwmpio a setlo | **£0.2197** |
| **S** | Y gost ar gyfartaledd am drin a gwaredu llaid sylfaenol yng ngweithfeydd trin carthion mawr y Cwmni | **£0.1589** |
| **M** | Y gost ar gyfartaledd am driniaeth forol drwy ddefnyddio gollyngfa hir i'r môr | **£0.2025** |
| **$V_m$** | Y gost ar gyfartaledd am bwmpio, triniaeth ragarweiniol a gollwng drwy ollyngfeydd | **£0.1444** |

## Tariff Diwydiannol:

Gall cwsmeriaid ddewis y tariff hwn pan fydd 100Ml neu fwy o elifion masnach yn cael eu gollwng o un safle bob blwyddyn.

| | | |
|---|---|---|
| **R** | Y gost ar gyfartaledd am dderbyn metr ciwbig o ddŵr budr i mewn i'r garthffos, gan gynnwys ei drawsgludo i'r gwaith trin neu'r ollyngfa | **£0.1956** |

Pan asesir bod y taliadau blynyddol yn llai na **£424** y flwyddyn, mae isafswm tâl o **£212** bob chwe mis yn daladwy.

## Tâl ychwanegol trwydded Asiantaeth yr Amgylchedd

Mae nifer cyfyngedig o ollyngiadau'n cynnwys y fath grynodiad o sylweddau organig cymhleth fel bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried bod angen eu rheoli drwy gynnwys cyfyngiadau ar grynodiadau mewn caniatadau gollwng. Mae'n rhaid talu mwy am drwyddedau ar gyfer yr elifion hyn. Pan ellir priodoli'r cynnydd yn y ffi hon i elifiant masnach unigol neu elifion y caniateir iddynt ollwng y sylweddau hyn, caiff y ffi ychwanegol ei hychwanegu at dâl elifion masnach y sawl sy'n gollwng yr elifion.

## Anghydfodau

Gellir cyfeirio unrhyw anghydfod ynghylch gollwng elifion masnach at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn y cyfeiriad a nodir ar dudalen 5.